## P-04-474 Cefnogaeth i wasanaethau caplaniaeth y GIG

**Geiriad y ddeiseb:**

Rydym yn cydnabod cyfraniad cadarnhaol gwasanaethau caplaniaeth ysbytai o ran darparu gofal ysbrydol o fewn y GIG yng Nghymru ac yn cydnabod y gwaith aruthrol y mae'r gwasanaeth caplaniaeth yn y GIG yn ei ddarparu.

Mae'r gwasanaeth hwn yn chwarae rhan bwysig yn lles ysbrydol cleifion a staff y GIG, nid yn unig i'r rheini sydd â chysylltiad crefyddol ond hefyd i eraill nad oes ganddynt unrhyw gysylltiad â grŵp crefyddol. Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i barhau â'i ymrwymiad i ariannu gwasanaethau caplaniaeth ysbytai ac i ehangu manteision gwasanaethau caplaniaeth i leoliadau gofal eraill, gan gynnwys lleoliadau gofal sylfaenol a chymdeithasol.

**Prif ddeisebydd:** Jim Stewart

**Ysytyriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor**: 16 Ebrill 2013

**Nifer y llofnodion**: 1077